



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2017–20

---

gan Aled Roberts

# Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2017–20

## **Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; partion eraill â buddiant.

## **Trosolwg**

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes y byddai Aled Roberts yn cynnal adolygiad brys o'r system bresennol ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg gan gynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017–20.

## **Camau i'w cymryd**

Dylai'r sawl sydd â diddordeb yn yr adolygiad nodi'r cynnwys a gweithredu yn unol â hynny.

## **Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [Cymraeg@llyw.cymru](mailto:Cymraeg@llyw.cymru)

## **Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru](http://llyw.cymru)

## **Dogfennau cysylltiedig**

*Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg* (2010)

*Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr* (2017) *Strategaeth y Gymraeg*

# Cynnwys

Cefndir	2
Cyflwyniad	3
Cyd-destun	6
Trosolwg cenedlaethol fesul Deilliant	7
Prif ganfyddiadau	10
Argymhellion	17

## Cefndir

- 1.1 Yn dilyn datganiad gan Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 14 Mawrth 2017 gofynnwyd i mi gynnal adolygiad brys o'r gyfundrefn bresennol ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg dros Gymru.
- 1.2 Gofynnwyd i mi gynnig argymhellion ar sut i ddatblygu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ynghyd â chynnig argymhellion o ran y cynlluniau unigol a gyflwynwyd i'r Llywodraeth ar ran pob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r safbwyntiau hynny bellach wedi eu rhannu gydag awdurdodau lleol.
- 1.3 Mae'r adolygiad hwn felly yn adlewyrchu fy marn bersonol ac annibynnol i ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2010. Ffurfiwyd fy marn yn dilyn trafodaethau gyda'r awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ynghyd â rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg.
- 1.4 Carwn ddiolch yn y lle cyntaf i bob un o'r awdurdodau lleol am gyfarfod efo mi ac am y modd maent wedi cydweithio â mi yn ystod yr arolwg brys. Ymhellach, rhaid cydnabod i'r adolygiad ddigwydd yn ystod cyfnod prysur oherwydd yr etholiadau lleol . Mae'r holl drafodaethau wedi bod yn rhai agored, yn onest ac adeiladol ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r trafodaethau hynny.
- 1.5 Gwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn awr, yw gwerthuso ac ystyried cynnwys yr adolygiad hwn a'r argymhellion a awgrymaf ynddo.

## Cyflwyniad

- 1.6 Mae'r adolygiad yma yn cydnabod canfyddiadau ac argymhellion dau adroddiad a gyhoeddwyd eisoes, sef adroddiad gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2015, a'r adroddiad ar y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gyhoeddwyd gan Estyn yn Medi 2016. Mae'r adroddiadau hyn yn disgrifio'n llawn hanes y cynlluniau ers cyhoeddi Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2010. Rwy'n rhannu'r pryderon a fynegwyd eisoes yn yr adroddiadau hynny ac yn cefnogi'n llwyr yr argymhellion ynddynt. Nid ymgais sydd yma i ail-adrodd beth sydd yn yr adroddiadau hynny ond yn hytrach, gosod cyfeiriad clir ar gyfer y dyfodol.
- 1.7 Ar y cyfan, mae'r cynlluniau a ddarparwyd ar gyfer cylch cynllunio 2017-20 yn dangos bod angen gwneud llawer iawn mwy os ydym am adlewyrchu'r dyheadau yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2010 heb sôn am ofynion mwy uchelgeisiol strategaeth newydd y Llywodraeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Os rhywbeth mae'r uchelgais ddiweddaraf yn mynnu bod amser paratoi adroddiadau ar ben ac mae angen cynllunio cadarn a gweithredu effeithiol gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol a'r holl randdeiliaid os ydym am gyrraedd y nod.
- 1.8 Wrth droi at y cynlluniau unigol fe gyfaddefodd y Gweinidog wrth iddo wneud ei ddatganiad ar 14 Mawrth 2017 fod rhai cynlluniau yn dangos diffyg uchelgais. Un peth sy'n hynod amlwg yn Cymraeg 2050 a gyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2017 yw bod rhaid i'n gweithredoedd ni yn y tymor byr, ac yn ystod y pum mlynedd gyntaf yn benodol, adlewyrchu maint yr uchelgais.
- 1.9 Rhaid cydnabod bod angen newid. Yr hyn sy'n amlwg i mi yw bod angen newid nid yn unig o ran uchelgais y cynlluniau unigol ond hefyd yn y fframwaith deddfwriaethol sydd wedi cael ei osod gan y Llywodraeth. Mae angen newid yn y rheoliadau a'r canllawiau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth a fydd yn arwain yn anochel at newid yng nghyfrifoldebau'r rhanddeiliaid a'r hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni.
- 1.10 Mae tri opsiwn ar gael i Lywodraeth Cymru wrth ystyried y cynlluniau unigol, sef derbyn y cynllun, derbyn y cynllun yn amodol ar addasiadau, neu wrthod y cynllun. Er bod cryn ddryswch wedi bod yn y gorffennol ynghylch goblygiadau gwrthod unrhyw gynllun, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu cynllun ar ran yr awdurdod lleol a'i gyflwyno iddo i'w weithredu mewn sefyllfa o'r fath. Fy mwriad wrth gyfarfod efo pob un o'r awdurdodau lleol felly oedd ceisio trafod y bylchau neu'r gwendidau amlwg o fewn y cynlluniau gan obeithio bod rhywfaint o gydnabyddiaeth o'r angen i addasu'r cynllun ymhellach.
- 1.11 Mae nifer o'r cynlluniau yn wan iawn o ran creu unrhyw alw am addysg Gymraeg. Heb ddiwygiadau sylweddol does fawr ddiben derbyn y

cynlluniau hyn fel ag y maent ar hyn o bryd. Mae gwrthod y cynlluniau hyn yn amlygu gwendid sylfaenol yn y fframwaith statudol presennol oherwydd mae'n golygu ei bod hi'n orfodol i Lywodraeth Cymru lunio cynllun ar ran yr awdurdodau mewn sefyllfa o'r fath. Mae'n annhebygol byddai unrhyw ymateb cadarnhaol yn lleol i gynllun sydd wedi ei ddarparu ar ran yr awdurdod gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r cynllun yn cael ei baratoi gan swyddog yn Llywodraeth Cymru a fyddai efallai heb ymwybyddiaeth a gwybodaeth lawn o'r sefyllfa ar lawr gwlad. A fyddai awdurdod lleol yn paratoi cynlluniau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn adlewyrchu safbwynt Llywodraeth Cymru yn hytrach nag unrhyw flaenoriaethau ac anghenion lleol?

- 1.12 Mae fy mhrofiad o lywodraeth leol yn fy arwain i gredu mai ofer fyddai gorfodi cynllun sydd wedi ei ysgrifennu yng Nghaerdydd neu Gyffordd Llandudno ar unrhyw awdurdod lleol. Mae hyn yn arbennig o wir os ydym am wireddu'r freuddwyd o adennill y tir a gollwyd o ran yr iaith. Mae angen adeiladu partneriaethau cryf sydd yn herio ac yn ei gwneud hi'n glir fod gan bob sir ran bwysig i'w chwarae wrth weithredu'r strategaeth gan gydnabod fod sefyllfa pob awdurdod o ran y waelodlin ieithyddol yn wahanol.
- 1.13 Rydw i wedi paratoi adborth ar y cynlluniau unigol i bob awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys awgrymiadau am newidiadau a fyddai'n cryfhau eu cynlluniau.
- 1.14 Wrth ystyried y modd y cafodd y cyfarfodydd rhyngom eu cynnal, mawr obeithiaf bydd y trafodaethau pellach gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhai cadarnhaol ac adeiladol. Dylai hyn alluogi awdurdodau lleol a'u rhanddeiliaid i gytuno ar unrhyw newidiadau fel bod cynlluniau cadarn yn eu lle cyn gynted ag y bo modd.
- 1.15 Yn y pen draw, fodd bynnag, lle nad yw'r trafodaethau pellach yna yn dwyn ffrwyth i gynyddu'r uchelgais yn lleol, credaf ei bod hi'n hen bryd i'r Llywodraeth fynd ati i wrthod cynlluniau unigol. Mawr obeithiaf na fydd hynny yn digwydd yn sgil y trafodaethau cadarnhaol a gafwyd hyd yn hyn.
- 1.16 Mae'n bur amlwg i mi fod angen newidiadau mawr yn ein dulliau cynllunio os ydym am lwyddo i gyrraedd y nod erbyn 2050. Mae'r arolwg brys hwn wedi'i gynnal ar sail gofynion a chanllawiau deddfwriaethol sydd yn hollol annigonol. Os yw Llywodraeth Cymru am wireddu'r strategaeth o 'Filiwn o Siaradwyr' erbyn 2050 mi fydd angen newid o fewn gwahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru ynghylch sut maent yn gweld ac yn rhannu'r weledigaeth. Mae arweiniad clir cenedlaethol a sirol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau fod y strategaeth yn cael ei gwireddu.
- 1.17 Yn fwy na hynny mae angen adolygu a newid y gyfundrefn gyfreithiol trwy greu fframwaith sy'n galluogi awdurdodau lleol i gynllunio yn strategol yn yr hir dymor yn hytrach na dros gyfnod o dair blynedd. Mae hefyd angen creu fframwaith cynllunio lle mae'r dyheadau ar lefel leol

yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru ac yn gofyn i'r awdurdodau gynllunio ar sail hynny. Mae angen newid y broses sy'n ymwneud â gwrthod cynllun fel bo'r cynllun yn cael ei yrru'n ôl at yr awdurdod lleol i'w ail-ysgrifennu yn hytrach nac i Lywodraeth Cymru dderbyn y cyfrifoldeb o wneud hynny.

- 1.18 Mawr obeithiaf y bydd yr awdurdodau lleol ac aelodau'r fforymau yn derbyn argymhellion yr adroddiad hwn mewn ffordd gadarnhaol gan mai ceisio cynnig syniadau adeiladol yw bwriad yr adroddiad hwn. Mae cyfle dros yr haf i swyddogion Llywodraeth Cymru gyfarfod efo'r awdurdodau er mwyn trafod fy sylwadau a'u barn hwy gan obeithio y bydd parodrwydd i addasu'r cynlluniau.
- 1.19 Mae angen llawer iawn mwy o addasiadau ar rai cynlluniau nac eraill. Mi fydd y trafodaethau pellach yn fy marn i yn cynnig cyfle i gryfhau'r cynlluniau er mwyn sicrhau dechrau cadarnhaol i strategaeth y Llywodraeth sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Os nad ydi'r trafodaethau yn adeiladol fodd bynnag, dylid gwrthod y cynllun.

## Cyd-destun

### Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

- 1.20 Un o nodau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 oedd adeiladu ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg anstatudol blaenorol drwy roi sylfaen statudol i'r cynlluniau hyn.
- 1.21 Rhoddodd y Ddeddf ddyletswydd ar bob awdurdodau lleol i ymgynghori ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, llunio cynllun o'r fath a'i gyhoeddi er mwyn i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo a'i fonitro. Mae'r Ddeddf yn nodi y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno rheoliadau ynghylch Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys darpariaethau mewn perthynas ag ymgynghori.
- 1.22 Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol lunio a chyflwyno eu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) i Weinidogion Cymru i ddangos sut maent yn anelu at gyflawni'r deilliannau a'r targedau ar gyfer addysg Gymraeg yn eu hardal lleol.
- 1.23 Mae'r CSGAau yn cynnwys saith deilliant penodol sy'n amlinellu'r modd y disgwylir i awdurdodau lleol wella addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal, sef:

**Deilliant 1:**

Mwy o ddysgwyr saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 2:**

Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu medrau iaith wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

**Deilliant 3:**

Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 4:**

Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith

**Deilliant 5:**

Mwy o fyfyrwyr yn meddu ar fedrau Cymraeg lefel uwch

**Deilliant 6:**

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

**Deilliant 7:**

Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)



## Trosolwg cenedlaethol fesul Deilliant

- 1.24 Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rwyf wedi cwrdd â phob awdurdod lleol ac astudio a dadansoddi eu cynlluniau. Rhoddais adborth unigol i bob awdurdod lleol. Mae'r adran hon yn crynhoi, ar lefel cenedlaethol, fy argraffiadau o'r cynlluniau fesul Deilliant.
- 1.25 Yn y lle cyntaf, nodaf nad oes Deilliant yn bodoli ynghylch darpariaeth cyn-ysgol. Credaf ei fod yn angenrheidiol cyflwyno deilliant sy'n canolbwyntio ar dwf strategol mewn darpariaeth cyn-ysgol. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno targedau cenedlaethol ar gyfer twf yn y sector, mae'n rhaid cael deilliant fydd yn mesur a dadansoddi cynlluniau'r awdurdodau lleol, Mudiad Meithrin ac eraill yn lleol. Byddai'r twf hynny yn dylanwadu ar y targedau sydd eu hangen yn y Deilliant 1 presennol.

### **Deilliant 1: Mwy o ddysgwyr saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

- 1.26 Mae mesur nifer y plant saith oed sydd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y cyfnod sylfaen yn fesur syml ond effeithiol o fesur twf. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, rhagamcanion o'r niferoedd a geir yn seiliedig ar y plant sydd yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn presennol ac a fydd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y cyfnod o fewn tair blynedd. Wrth i dargedau cenedlaethol gael eu gosod sy'n adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru mae angen i'r rhain gael eu dehongli ar lefel lleol trwy fabwysiadu targedau lleol, gyda chynnydd yn y ddarpariaeth o ganlyniad.
- 1.27 Credaf y dylai deilliant cyn-ysgol gael ei fabwysiadu fel Deilliant 1 efo targed i gynyddu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ymhob ardal. Byddai hyn wedyn yn cynnwys targed pellach ar gyfer y cyfraddau dilyniant rhwng cyn-ysgol a'r cyfnod sylfaen. Byddai'r nifer o blant sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg yn saith oed felly yn ffurfio Deilliant 2 gyda phob deilliant yn cael ei ail rifo yn unol â hynny. Ar ôl hynny byddai'r canran sy'n trosglwyddo rhwng y cynradd a'r uwchradd ac yna'n sefyll arholiadau yn cynyddu yn yr un modd yn seiliedig ar ganrannau trosglwyddo llwyddiannus trwy'r cyfnodau allweddol.

### **Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu medrau iaith wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

- 1.28 Mae'n amlwg bod rhaid targedu yr awdurdodau lleol hynny sydd angen cynyddu'r niferoedd sy'n trosglwyddo rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn fwy effeithiol. Mae angen newid mewn rhai siroedd lle mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn y rhai sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg rhwng CA2 a CA3.
- 1.29 Mae'n debygol bydd unrhyw newid yn y gyfundrefn gategoreiddio bresennol yn symleiddio'r broses wrth symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol. Byddai hyn yn galluogi trafodaethau mwy miniog

efo'r awdurdodau lleol unigol wrth symud ymlaen.

- 1.30 Mae angen protocol yn rhai o'r awdurdodau lleol hyn lle bydd disgygliadau ar ysgolion i sicrhau fod plant sydd wedi derbyn eu haddysg gynradd yn y Gymraeg yn parhau i astudio Cymraeg fel mam iaith, er bydd rhai ysgolion yn gyndyn i wneud hynny os yw'r polisi newydd yn effeithio ar raddau disgyblion fyddai'n sicr o gyrraedd A\* yn y TGAU Cymraeg ail iaith.

### **Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg**

- 1.31 Mae angen tracio'n fwy effeithiol i ddeall pam mae'r niferoedd sydd yn astudio dau TGAU neu fwy a phump TGAU neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg wedi disgyn yn oes y cynlluniau presennol. Mae'n bosib bod angen ymgyrch i ddylanwadu ar feddylfryd rhai rhieni ar werth addysg ddwyieithog a'r ffaith bod sgiliau yn y Saesneg yr un mor gryf yn nifer helaeth yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r ysgolion eraill.
- 1.32 Mae angen trafodaeth efo CBAC ynghylch polisiâu yr ysgolion dwyieithog lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu gwahaniaeth rhwng nifer y disgyblion sy'n sefyll yr arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg o'i gymharu â'r nifer sy'n cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith**

- 1.33 Mae'n amlwg erbyn hyn fod newid yn y trefniadau i Rwydweithiau 14-19 wedi effeithio ar natur y cynigion sydd ar gael i fyfyrwyr barhau i astudio yn y Gymraeg o 14 mlwydd oed ymlaen.
- 1.34 Nid yw darpariaeth addysg bellach wedi ei gynnwys yn y CSGAau ar hyn o bryd ac mae angen trafodaeth ar sut i sicrhau fod cynlluniau'r sector yn cael eu gyrru yn fwy effeithiol yn y gyfundrefn bresennol gan ystyried statws cyfreithiol y colegau. Mae angen sicrhau fod cynrychiolaeth strategol o'r sector addysg bellach ar y fforymau sirol.

### **Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr yn meddu ar fedrau Cymraeg lefel uwch**

- 1.35 Anodd ydi deall pa ddylanwad sydd gan y fforymau wrth gynyddu niferoedd yn ein hysgolion sy'n astudio Cymraeg lefel uwch bydded hynny fel mam iaith neu ail iaith. Hwyrach mai dyma'r amser i gael trafodaeth gadarn efo Cymwysterau Cymru o ran newid y ffordd mae'r iaith yn cael ei dysgu wrth symud ymlaen. Os ydi'r niferoedd ar gyfer safon uwch yn parhau i ddisgyn mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r goblygiadau ar obeithion cyflawni targedau Cymraeg 2050. Bydd hyn hefyd yn dylanwadu ar ragolygon y niferoedd o athrawon fydd eu hangen i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein ysgolion.
- 1.36 Mae angen i'r awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth Cymraeg ôl-16 yn

fwy strategol wrth ystyried dylanwad polisïau trafnidiaeth ar y niferoedd posib mewn dosbarthiadau chwech cyfrwng Cymraeg traddodiadol o'u cymharu â'r colegau addysg bellach lle mae rhai o'r colegau yn darparu trafnidiaeth am ddim. Dylai Llywodraeth Cymru wneud datganiad clir ar bolisi trafnidiaeth.

- 1.37 Dylid ystyried a fyddai'n fwy priodol mabwysiadu deilliant ar nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol neu'r coleg ar lwybrau academaidd neu alwedigaethol. Fel arall, gallai hyn gael ei gyflwyno fel deilliant ychwanegol.
- 1.38 Mae angen gwella darpariaeth Cymraeg yn y gymuned a gweithgareddau ar ôl ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc. Ar lefel sirol, mae'r ddarpariaeth a gynigir gan yr Urdd, Mentrau Iaith a'r awdurdodau lleol yn anghyson ar hyn o bryd. Dylid rhannu arfer da ac annog partneriaethau strategol i gryfhau'r sefyllfa yn y cyfnod cynllunio. Mae uchelgais Llywodraeth Cymru yn glir - mae angen i ni symud oddi wrth drefniadau sydd yn aml yn adlewyrchu patrymau hanesyddol o gyllid yn hytrach nag unrhyw gynllunio strategol.

#### **Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

- 1.39 Ni chesglir unrhyw ddata ar lefel cenedlaethol ar hyn o bryd i fesur y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.
- 1.40 Cymysg iawn yw'r darlun ar ddarpariaeth awdurdodau lleol. Mae'n glir fod angen ysgogiad i weithio'n rhanbarthol lle mae niferoedd y disgyblion mewn awdurdodau unigol yn ei gwneud hi'n anodd cyfiawnhau darpariaeth ddwys.

#### **Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)**

- 1.41 Prin iawn oedd yr awdurdodau hynny oedd yn cynllunio'n strategol anghenion eu gweithlu yn seiliedig ar asesiad cyfredol o fedrau iaith. Dylai asesiadau iaith fod yn hanfodol ac yna sicrhau bod disgwyliadau pendant mesuradwy ar bolisïau recriwtio a hyfforddiant. Oni bai fod hynny'n digwydd nid wyf o'r farn bod unrhyw bwynt parhau efo'r deilliant yma yn seiliedig ar faint o weithredu sydd wedi bod o fewn y cynlluniau blaenorol.

## Prif ganfyddiadau

### Ymrwymiad

- 1.42 Mae mwyafrif y rhanddeiliaid yn awyddus i gyfranogi at ddyheadau Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n glir fodd bynnag bod angen ysgogiad ac arweiniad cenedlaethol clir os ydym am gyrraedd y nod. Mae angen cytuno ar raglen weithgareddau a meini prawf ar lefel awdurdod lleol sy'n cael ei yrru a'i fonitro yn genedlaethol. Os yw'r Llywodraeth yn penderfynu ar dargedau a meini prawf cenedlaethol ar gyfer y daith hyd at 2050 felly mi fydd yn rhaid cytuno ar dargedau a meini prawf tebyg ar gyfer pob awdurdod lleol.
- 1.43 Mae'r Llywodraeth a'r mwyafrif o randdeiliaid yn derbyn bod gan y system addysg rôl allweddol i greu siaradwyr Cymraeg y dyfodol. Yn hynny o beth siomedig yw adrodd nad yw'r sefyllfa wedi symud ymlaen rhyw lawer ers adroddiad Estyn yn 2016<sup>1</sup>. Nododd Estyn bod angen partneriaeth gryfach rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol er mwyn cryfhau'r targedau o ran twf er mwyn iddynt gyd-fynd yn well efo gweledigaeth Llywodraeth Cymru, nad oedd mor uchelgeisiol ar y pryd.

### Gweithio mewn partneriaeth

- 1.44 Mae angen partneriaeth gryfach, mwy agored a heriol rhwng Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid wrth ddatblygu'r CSGAau yn enwedig wrth osod targedau a chytuno ar ddeilliannau.
- 1.45 Byddai partneriaeth gryfach, agored yn galluogi trafodaeth gadarn i ddigwydd rhwng yr holl rhanddeiliaid ac yn arwain at dargedau pwrpasol ac ymarferol yn lleol fyddai'n bwydo dyheadau'r Llywodraeth ar lefel genedlaethol. Byddai'r trefniadau yn dibynnu ar y strwythurau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer *Cymraeg 2050*.

### Prosesau ymgynghori

- 1.46 Mae pob un o'r awdurdodau lleol wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol a'r mwyafrif ohonynt wedi datblygu eu CSGAau yn ofynnol a'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Er hyn, mae rhai cynlluniau yn parhau i fod yn wan.
- 1.47 Er hynny, mae adroddiadau Pwyllgor Plant, Pobl Ifainc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol ac Estyn wedi nodi anghysonderau o ran aelodaeth, rolau a chyfraniadau disgwylidig y Fforymau Addysg Gymraeg - pa mor aml maent yn cyfarfod a'r ffaith nad yw camau gweithredu yn ddigon manwl nac yn cael eu harfarnu'n ddigonol.

---

<sup>1</sup> <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-awdurdodau-lleol>

- 1.48 Erbyn hyn tra'n cydnabod pa mor ddeniadol yw galluogi fforymau i ddatblygu ar sail dyheadau lleol mae angen cytundeb cenedlaethol rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru er mwyn cael gwared â'r anghysonderau hyn a thrafod newid ar sail yr arfer da presennol.

### **Amserlen**

- 1.49 Dylid adolygu amserlen y cynlluniau. Nid yw cynlluniau tair blynedd yn galluogi rhanddeiliaid i gynllunio'n strategol ar gyfer y newid sydd ei angen a dylid ystyried cynlluniau pum mlynedd neu hyd yn oed deng mlynedd. Mae'n synhwyrol ystyried os dylid newid amserlen y cynlluniau i gyd-fynd â rhaglenni cyfalaf Llywodraeth Cymru, Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, er mwyn i'r cynlluniau dargedu'r buddsoddiad angenrheidiol i ysgolion a darpariaeth cyn-ysgol.

### **Y fframwaith ddeddfwriaethol**

- 1.50 Mae angen symud yn bwrpasol o ran cyflwyno unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Mi fydd cryn oedi rhwng penderfynu ar y newidiadau angenrheidiol a'u cyflwyno i'r Cynulliad oherwydd gofynion drafftio ac amserlen y Cynulliad ei hun. Dylid mynd ati ar unwaith felly i sefydlu panel neu fwrdd all drafod a gyrru newidiadau angenrheidiol i'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau yn eu blaen, cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod y fframwaith newydd mewn lle ar gyfer y cylch nesaf o gynlluniau neu pe bai'n bosib, hyd yn oed cyn hynny. Nid oes unrhyw amser i'w gollu er mwyn gweithredu a chyfrannu at *Cymraeg 2050*. Mi fydd angen newidiadau i Ddeddf Rheoliadau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2013.

### **Y deilliannau**

- 1.51 Mae angen adolygu'r deilliannau presennol a fesurir. Beth yw pwrpas cyfrif nifer y plant saith oed sydd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg os nad oes targedau lleol wedi eu cytuno i gynyddu'r ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg?
- 1.52 Yn anffodus mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol a'r rheoliadau a chanllawiau sydd yn deillio o hynny yn hyrwyddo'r arfer o adrodd ar ragamcanion yn hytrach nag ar dargedau e.e. Deilliant 1. Yr hyn sy'n digwydd yn y CSGAau yw bod yr awdurdod lleol yn adrodd ar faint o blant sydd yn eu dosbarthiadau meithrin a derbyn ar hyn o bryd ac a fydd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg ymhen tair blynedd pan fyddant yn saith oed, yn hytrach na phennu targedau twf i'r awdurdod ar gyfer y tair mlynedd sy'n seiliedig ar gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol.
- 1.53 Bydd cyfle i'r bwrdd/panel ystyried goblygiadau polisiâu a threfniadau sydd wedi eu cyflwyno ers 2013 yn arbennig felly y polisi arfaethedig ar

gau ysgolion gwledig lle mae cymaint ohonynt yn ysgolion Cymraeg eu hiaith.

- 1.54 Mi fydd yn bosib i'r bwrdd/panel hefyd ystyried y deilliannau mwyaf addas ar gyfer cynllunio strategol tuag at 2050. Tra bod mesur nifer y plant sydd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg yn saith oed yn fodd cadarn o ran data i fesur tueddiadau mae angen creu deilliannau sydd yn cynyddu'r cyflenwad o blant sydd yn cael eu cyflwyno i addysg Gymraeg o'r sector cyn ysgol a thyfu'r sector hynny o fewn pob awdurdod lleol.

### **Y blynyddoedd cynnar**

- 1.55 Mae'n amlwg wrth edrych ar y canrannau uchel sydd yn trosglwyddo rhwng lleoliadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg a'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg lleol bod cyswllt penodol rhwng cynyddu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg a llywyddiant unrhyw strategaeth ar gyfer 2050.
- 1.56 Mewn rhai mannau o Gymru, mae angen gofyn cwestiynau ynghylch cryfder y berthynas strategol rhwng llywodraeth leol a'r Mudiad Meithrin ac a oes cynrychiolaeth bwrpasol gan y Mudiad ar rai o'r fforymau presennol.
- 1.57 Mae'n amserol edrych ar newid rhai o'r modelau darpariaeth hanesyddol os ydym am lwyddo gyda'r nod erbyn 2050.
- 1.58 Mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod cynllunio cenedlaethol a lleol digonol yn digwydd mewn perthynas â'r ymrwymiad i gael 30 awr o ofal plant gan y bydd yn dylanwadu ar batrymau lleol ac yn cyfrannu at y strategaeth iaith yn y pen draw. Mae cwestiynau yn codi ynghylch ymwybyddiaeth rhai adrannau yn Llywodraeth Cymru ac mewn rhai awdurdodau lleol ar ddylanwad polisi ar batrymau iaith ac addysgu a rhaid sicrhau cyfle i rhanddeiliaid dros yr iaith Gymraeg fod yn rhan o'r broses hynny.
- 1.59 Mae cwestiynau yn codi ynghylch dilysrwydd llawer o'r data sydd yn cael ei baratoi bydded hynny o ran niferoedd o fewn y sector cyn-ysgol ac os yw rhai plant yn cael eu cyfrif mwy nag unwaith, ansawdd y data sydd yn cael ei dderbyn o ran Aseidiadau Digonolrwydd Gofal Plant a hyd yn oed data PLASC ynghylch natur y ddarpariaeth ieithyddol mewn ysgolion unigol.

### **Catgoreiddio ysgolion yn ôl iaith**

- 1.60 Mae'n amser symleiddio'r broses o ran catgoreiddio ieithyddol ein hysgolion. Mae'n amlwg imi erbyn hyn nad yw'r catgoreiddio presennol yn adlewyrchu sefyllfa ieithyddol nifer o'n hysgolion. Mae hyn yn creu dryswch o ran dealltwriaeth rhieni am natur ieithyddol rhai ysgolion ond hefyd yn creu darlun ffug o ran natur y ddarpariaeth leol.

- 1.61 Mae'n aneglur i rieni pa ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gellir eu disgwyl mewn gwahanol categorïau. Fe gyfeiriwyd at hyn yn adroddiad Estyn o 2014 sef "nad yw'r categorieiddio swyddogol yn cael ei ddefnyddio yn gywir bob tro." Mewn rhai achosion mae'n debyg ei fod yn anoddach i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r sefyllfa ieithyddol o fewn eu hysgolion.
- 1.62 Mae llai o swyddogion awdurdodau lleol yn awr yn cael mynediad uniongyrchol i ysgolion. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfrifoldebau'r consortia a'r awdurdodau unigol. Mae'n ymddangos i mi wrth i gynghorwyr her rhanbarthol gael y dasg o fonitro'r addysgu a'r safonau mewn ysgolion, gall fod yn briodol iddynt gynghori'r awdurdodau ar sut mae'r categorieiddio yn cyd-fynd gyda'r cyfrwng addysgu mewn ysgol. Gall y cyfrifoldeb o sicrhau gwybodaeth ieithyddol gywir i rieni gael ei ystyried o fewn unrhyw newidiadau i'r trefniadau categorieiddio maes o law.
- 1.63 Credaf fod angen ymdrin â'r dryswch mewn ysgolion dwyieithog lle mae plant yn cael eu cofrestru i sefyll arholiad trwy gyfrwng y Gymraeg, yna'n derbyn papur yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn ateb y papur Saesneg.

### **Buddsoddiad cyfalaf**

- 1.64 Mae angen canllawiau clir ar fuddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gan Lywodraeth Cymru fydd yn galluogi awdurdodau lleol i adeiladu ysgolion newydd ar gyfer twf mewn addysg Gymraeg neu ehangu darpariaeth bresennol. Mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn paratoi eu cynlluniau ar gyfer Band B Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Bydd unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth Cymru i greu cronfa ar wahân neu gynyddu'r ganran o gefnogaeth ar gyfer addysg Gymraeg yn dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio a wneir gan yr awdurdodau lleol oherwydd prinder arian.
- 1.65 Mae angen adolygu trefniadau ar gyfer creu adnodd cyn-ysgol ar yr un safle er mwyn sicrhau trosiant uwch rhwng lleoliadau cyn-ysgol a'r dosbarth meithrin mewn rhai ardaloedd.
- 1.66 Yn genedlaethol mae angen sicrhau bod awdurdodau lleol yn dewis dulliau ar sut i benderfynu ar gyfrwng iaith unrhyw ysgol sydd yn cael ei hadeiladu o dan ofynion y Cynllun Datblygu Lleol neu fel rhan o gytundeb rhwng y datblygwr a'r cyngor lleol yn unol ag amodau adran 106.<sup>2</sup>
- 1.67 Mae angen i'r Llywodraeth fynd i'r afael â gwrthdaro rhwng strategaethau gwahanol. Enghraifft o hyn yw'r pwysau a roddir ar gynghorau i fynd i'r afael â llefydd gweigion yn yr ysgolion, tra ar yr un pryd yn awyddus i agor ysgolion mewn ardaloedd lle nad oes ysgol Gymraeg sy'n cymryd nifer o flynyddoedd i'r ysgol lenwi o'r

---

<sup>2</sup> Adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

blynyddoedd cynnar. Mae tensiwn clir yma. Fe ddylai'r adran gyfalaf i sicrhau addysg ac ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif o fewn Llywodraeth Cymru adlewyrchu uchelgais y Llywodraeth i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y canllawiau ar gynlluniau busnes cyfalaf i'r awdurdodau lleol.

## **Addysg Bellach**

- 1.68 Mae angen ffocws newydd ar ddiffyg darpariaeth yn y Gymraeg yn y sector ôl-16 a galwedigaethol. Ers 2015 mae effeithiolrwydd y Rhwydweithiau Llwybrau Dysgu 14-19 i gyfrannu at ddarparu cyrsiau CA4 ac ol-16 cyfrwng Cymraeg wedi gwanhau'n sylweddol. Mi fydd cynlluniau'r Llywodraeth a rôl arfaethedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hyn o beth yn neilltuol ond mae angen deall sut mae cynllunio ar lefel awdurdodau lleol wedi newid gan fod llai o golegau addysg bellach sy'n fwy eu maint ac yn gweithredu fwy-fwy ar lefel traws-sirol. Unwaith eto bydd angen i'r bwrdd arfaethedig gynghori'r Gweinidog ar unrhyw newidiadau sy'n ofynnol ar ddata neu'r ffordd mae'r ddarpariaeth yn cael ei gyllido o hyn ymlaen.
- 1.69 Mae adroddiad diweddar Estyn *Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach*<sup>3</sup> yn dangos bod llawer o waith i'w wneud yn y sector yma. Fe gyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg<sup>4</sup> flaenorol Lywodraeth Cymru yn 2010 gyda'r nodau strategol o "wella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant" a hefyd "sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg."
- 1.70 Gosodwyd targed bras bod o leiaf 10% o ddysgwyr yn y sector addysg bellach yn astudio naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog erbyn 2020.
- 1.71 Mae'n ymddangos nad oes llawer o gynnydd wedi ei wneud yn y sector ers 2010 er bod enghreifftiau o arfer da mewn rhai colegau. Mae effeithiolrwydd a dylanwad rhwydweithiau 14-19 wedi gostwng.
- 1.72 Er bod rhai newidiadau eleni i'r data sydd yn cael ei gasglu mae mwy o waith i'w wneud ac mae angen i'r bwrdd/panel ystyried ffyrdd i gryfhau'r berthynas rhwng yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a'r sector addysg bellach.

## **Gwasanaethau ieuencid**

- 1.73 Anghyson iawn yw'r ddarpariaeth a'r trefniadau sydd mewn lle ar draws ein siroedd i alluogi pobl ifainc i dderbyn gwasanaethau ieuencid dwyieithog ac mae angen i'r fforymau gyd-weithio'n agosach efo'r gwasanaethau hyn ynghyd â'r Urdd a'r Mentrau Iaith

---

<sup>3</sup> <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/addysgu-dysgu-cyfrwng-cymraeg-dwyieithog-mewn-addysg-bellach>

<sup>4</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf>



## **Anghenion dysgu ychwanegol**

- 1.74 Gwan iawn yw mwyafrif y cynlluniau o ran darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Er bod y canllawiau a gyhoeddwyd eleni yn gofyn i'r cynghorau ystyried sut byddant yn ymestyn eu capasiti i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg yn sgil eu harchwiliad blynyddol mwyaf diweddar, nifer bach iawn ohonynt sydd wedi gwneud hynny.
- 1.75 Fe ddylid cynnwys yr archwiliad anghenion dysgu ychwanegol mwyaf diweddar fel rhan o'r dystiolaeth ynghylch pa fath o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg y mae'r awdurdod yn methu ei gynnig ar hyn o bryd.
- 1.76 Fe ddylai'r cynllun fynd ati ar ôl hynny i egluro sut mae'r awdurdod yn bwriadu pontio'r bwlch rhwng y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol presennol a'r anghenion a nodwyd a'r cymorth sydd ar gael yn hytrach na datgan nad oes digon o ddarpariaeth ar hyn o bryd.
- 1.77 Mae'n amlwg o fewn rhai siroedd nad yw'r niferoedd sydd angen darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol dwys yn yr iaith Gymraeg yn ddigonol i gyfiawnhau darpariaeth arbenigol ar lefel sirol ond eto siomedig yw'r manylder ar unrhyw drafodaethau i ymateb i'r galw ar lefel rhanbarthol neu is-ranbarthol. Mae'n ofynnol i'r consortia ysgogi'r drafodaeth lle nad yw hynny'n digwydd yn barod.

## **Y gweithlu**

- 1.78 Anghyson yw'r darlun hefyd o ran faint o awdurdodau lleol sydd yn mesur sgiliau ieithyddol eu staff yn rheolaidd. Os ydym am weld cynnydd yn nifer y plant sydd yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg yn ein hysgolion mae'n rhaid cynllunio wrth ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ein hymarferwyr yn yr ysgolion. Prin iawn yw unrhyw drafodaeth ar sut bydd awdurdodau lleol yn blaenoriaethu a diwallu'r anghenion hynny yn arbennig o ran y defnydd a wneir o Gynllun Sabothol yr Iaith Gymraeg. Disgrifiad o'r anawsterau i recriwtio staff a geir yn hytrach nac unrhyw gynllunio strategol i fynd i'r afael â'r broblem.
- 1.79 Rhaid holi pa bwrpas sydd i gynllunio ar gyfer twf sylweddol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ystod y tair mlynedd nesaf heb bod penderfyniadau brys yn cael eu cymryd ar hyfforddi rhagor o athrawon newydd sydd yn medru'r Gymraeg, yn arbennig yn y sector uwchradd. Mae'n rhaid gwella sgiliau iaith yr athrawon presennol ond hefyd sicrhau bod defnydd yn cael ei wneud o'r sgiliau newydd hynny ar ôl eu cael.
- 1.80 Rwyf yn rhannu canfyddiadau Estyn, fod mwyafrif ein hawdurdodau lleol erbyn hyn wedi cynnal archwiliad medrau ieithyddol o'r gweithlu addysgu a'u bod yn defnyddio'r rhain i lywio rhaglenni datblygiad

proffesiynol parhaus a hyfforddiant penodol. Nid oes llawer o dystiolaeth, fodd bynnag, fod yr awdurdodau lleol na'r consortia yn arfarnu'r rhaglenni hynny yn effeithiol yn enwedig eu dylanwad ar safonau.

- 1.81 Mae angen creu strwythur mwy pwrpasol ar gyfer cynllunio ar gyfer gweithlu dwyieithog. Nid yw'r fforymau yn dylanwadu ar gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16. Nid ydynt ychwaith yn cyfrannu tuag at dyfu a datblygu'r gweithlu ddwyieithog bydded hynny ar gyfer gofal plant, y sector iechyd a gofal neu hyd yn oed ddarpar athrawon, i gyflenwi gofynion yr ysgolion newydd cyfrwng Cymraeg fydd eu hangen ar gyfer y twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Argymhellion

1. Creu perthynas mwy agored a heriol rhwng Llywodraeth Cymru a'r holl randdeiliaid ar ddatblygiad y CSGAau yn enwedig wrth osod targedau a chytuno ar ddeilliannau.
2. Adolygu amserlen y CSGAau i gyd-fynd â Rhaglenni Cyfalaf Llywodraeth Cymru, yn arbennig Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Dylid targedu'r buddsoddiad cyfalaf er mwyn sicrhau cysylltiad rhwng rhaglenni ysgolion a chyn-ysgol.
3. Adolygu'r deilliannau presennol a hefyd cytuno ar y deilliannau mwyaf pwrpasol a phriodol ar gyfer y cylch nesaf o CSGAau er mwyn cyfrannu yn effeithiol at uchelgais y Llywodraeth o ran 2050.
4. Symud yn gyflym a phwrpasol er mwyn cyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol. Dylid sefydlu panel neu grŵp er mwyn trafod a phwyso a mesur y newidiadau sydd eu hangen i'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau cyn eu cyflwyno gerbron y Cynulliad.
5. Dylid sicrhau cytundeb ar lefel cenedlaethol rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru er mwyn cael cysondeb i aelodaeth, rolau a chyfraniadau disgwyliedig ar y fforymau a thrafod newid ar sail arfer da presennol.
6. Cryfhau'r berthynas strategol rhwng llywodraeth leol a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau twf ar lefel pob sir fydd yn cyfrannu at dargedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar hyd y daith hyd at 2050.
7. Llywodraeth Cymru i gynllunio darpariaeth Gymraeg ddigonol yn y cynnig gofal plant 30 awr gan ystyried ei effaith arfaethedig ar batrymau darpariaeth leol.
8. Symleiddio proses categoreiddio ieithyddol ysgolion. Yn y cyfamser y consortia i lunio adroddiadau i'r awdurdodau lleol yn cadarnhau'r sefyllfa ieithyddol gyfredol ym mhob ysgol unigol.
9. Sicrhau natur a dilysrwydd data sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dylai hyn arwain at adnabyddiaeth fuan ac effeithiol o unrhyw batrymau yn y data sydd yn awgrymu pryderon mewn prosiectau/rhaglenni yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.
10. Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau pendant o ran dyraniad buddsoddiad cyfalaf i'r gyfundrefn addysg cyfrwng Gymraeg. Mae nifer o'r rhanddeiliaid wedi crybwyll cronfa ar wahân ac eraill yn credu dylid cynyddu'r ganran o cefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth, lle mae cynlluniau yn ymateb i flaenoriaeth y Llywodraeth ar dyfu addysg Gymraeg. Dylid adolygu prosesau cyfalaf o ran darpariaeth cyn-ysgol hefyd er mwyn cynllunio trosiant rhwng y lleoliadau cyn-ysgol a'r ysgolion cynradd Gymraeg yn effeithiol.

11. Penderfyniad ar lefel genedlaethol neu gytundeb rhwng y Llywodraeth a'r awdurdodau lleol ar broses sy'n penderfynu ar gyfrwng iaith unrhyw ysgol sydd i'w hadeiladu o dan oblygiadau a gofynion y Cynllun Datblygu Lleol neu fel rhan o gytundeb rhwng y datblygwr a'r cyngor lleol yn unol ag amodau Adran 106.
12. Ffocws newydd ar ddarpariaeth ôl-16 wrth ystyried unrhyw newidiadau o ran y data sydd angen ei gasglu er mwyn sicrhau darlun cywir ar natur y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y colegau addysg bellach. Unwaith mae'r data yn gadarn a'r darlun yn glir gellir ystyried y modd y mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach yn cael ei gyllido i'r dyfodol.
13. Cynllunio a gweithredu brys er mwyn cynyddu'r nifer o athrawon sydd yn cael eu hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg.
14. Gosod targedau a meini prawf ymhob cynllun i sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg tu allan i oriau ysgol. Ceisio sicrhau mwy o gysondeb yn y modd mae gwasanaethau ieuencid trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu ar draws Cymru.
15. Y cynghorau i gynnwys asesiadau manwl o'u gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yn eu cynlluniau, a'r consortia i adrodd ar y sefyllfa yn rheolaidd gan arwain ar drafodaethau rhanbarthol neu isranbarthol lle nad yw'r galw am wasanaethau yn ddigonol yn y siroedd unigol.
16. Codi statws yr iaith Gymraeg mewn adrannau o'r Llywodraeth a llywodraeth leol fel ei bod yn cael ei ystyried yn llawn cyn i unrhyw strategaethau newydd gael eu mabwysiadu. Dylid creu proses hefyd er mwyn osgoi gwrthdaro neu ddatrys sefyllfa o wrthdaro rhwng strategaethau gwahanol sydd yn effeithio ar sefyllfa'r iaith.
17. Y Llywodraeth yn ganolog a'r awdurdodau lleol i ystyried maint adnoddau eu hunedau iaith Gymraeg wrth iddynt symud ymlaen i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050.
18. Dylid sicrhau fframwaith deddfwriaethol sy'n darparu cefnogaeth, cyngor a beirniadaeth adeiladol i'r cyrff wrth iddynt weithio i gwrdd ag unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â chynllunio addysg (boed hynny ar ffurf CSGA neu ffurf arall).